# Yn gwella bywydau pobl hŷn

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

## Pecyn Gwybodaeth i Ymddiriedolwyr
## Mehefin 2026



# Croeso

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno ag Ymddiriedolwyr Age Cymru.

Rydyn ni'n chwilio am ymddiriedolwyr i ymuno â'n bwrdd brwdfrydig a medrus. Mae gennym ni ddiddordeb arbennig mewn clywed gan unigolion sydd â phrofiad o weithio yn y maes polisi, a phrofiad o ddylanwadu, marchnata, cyllid a chynhyrchu incwm, cefndir yn y secto gyhoeddus neu'r sector fusnes, pobl sy'n byw yng ngogledd a chanolbarth Cymri, siaradwyr Cymraeg a phobl grwipiau ehtnig lleiafrifol er mwyn ehnagu ein cynrychiolaeth.

Mae pobl hŷn yn parhau i wynebu heriau yn cynnwys unigrwydd, oedi wrth aros am ofal cymdeithasol a gofal iechyd, dod o hyd i dai addas neu drafnidiaeth o fewn eu cymunedau.


Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i effeithio ar bobl ledled y wlad. Mae costau bwyd, gwres, teithio ac adnoddau hanfodol wedi cynyddu'n eithriadol. Mae tlodi pensiynwyr yn wirionedd ledled Cymru. Mae nifer o bobl hŷn yn ceisio byw heb bethau sylfaenol er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd. Mae gan bawb yr hawl i heneiddio'n gyffyrddus heb orfod poeni am droi'r gwres ymlaen, ac heb orfod mynd heb fwyd er mwyn arbed arian. Yn ogystal â darparu gwasanaethau fel Cyngor Age Cymru, byddwn ni'n parhau i fod yn lais cryf ar gyfer pobl hŷn yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r adborth gadarnhaol gan bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Ar wahan i'n gwasnaethau, rydyn ni'n dylanwadu ar ran pobl hŷn. Rydyn ni'n gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn dylanwadu ar wneuthurwyr polisïau, ac yn rhannu gwybodaeth gyda gwleidyddion am effaith eu polisïau ar feysydd fel gofal cymdeithasol, iechyd a hawliau dynol. Byddwn ni'n parhau i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu parchu, eu hyrwyddo a'u diogelu. Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn hanfodol wrth sicrhau bod Age Cymru'n gweithio i hyrwyddo llesiant pob person hŷn yn ystod y cyfnod anodd hwn.

A oes gennych chi'r brwdfrydedd, yr ysgogiad a'r sgiliau i'n helpu ni? Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ateb.

**John Williams**
**Cadeirydd, Age Cymru**



**Llynedd, mi wnaeth Cyngor Age Cymru helpu 12,918 o bobl i fynd i'r afael â 43,317, o faterion (mwy na dwbl ffigwr y flwyddyn flaenorol).**

- Mae 1/3 o'n galwadau yn ymwneud â budd-daliadau pobl hŷn
- Mae 1/3 o'n galwadau'n ymwneud â phroblemau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a/neu ofal cymedeithasol

Mae nifer cynyddol o'r galwadau'n amlygu pwysigrwydd cyngor ym mywydau pobl hŷn a'u gofalwyr. Mae'r traean olaf o alwadau'n ymwneud â'r amrywiaeth o faterion eraill sy'n wynebu pobl hŷn.

*"Roeddech chi'n glir ac yn gryno, cyfeillgar a phroffesiynol. Diolch o galon."*

*"Neilltuol!! Siop un stop arbennig."*

*"O'r holl sefydliadau dwi wedi troi atynt am help, chi sydd wedi rhannu fwyaf o wybodaeth, rydw i'n hynod o ddiolchgar."*

*"Diolch yn fawr. Dwi bron â bod yn fy nagrau. Diolch o galon i chi am eich help heddiw. Rydw i'n rhyfeddu ar yr holl waith rydych chi'n gwneud ."*



# Rydyn ni yma ar gyfer pobl hŷn.

**Bob mis**

- Mae **200+ o** bobl yn derbyn ein galwadau cyfeillgarwch
- Mae **1400+ o bobl** hŷn yn cymryd rhan yn ein rhaglenni ymarfer corff
- Mae **250+ o bobl** yn derbyn cefnogaeth eiriolaeth
- Mae **11000 o bobl** yn ymweld â'n gwefan

# Eich cais



Diolch am eich diddordeb mewn gwneud cais i fod yn un o ymddiriedolwr Age Cymru. Ar y tudalennau canlynol, mae yna lawer o wybodaeth am yr Elusen, ein gwaith a'r effaith rydym yn ei chael ar bobl hŷn yng Nghymru. Gobeithiwn y byddwch chi'n awyddus i ymuno â ni!

Os hoffech chi holi cwestiwn neu os hoffech chi drafodaeth anffurfiol am y rôl, gallwn drefnu sgwrs gydag un o'n hymddiriedolwyr presennol, er mwyn iddyn nhw rannu eu profiadau. Cysylltwch â Victoria Lloyd ar 029 2043 1555.

### I wneud cais, anfonwch:

- Amlinelliad o'ch profiad a'r rhinweddau personol y byddwch yn eu rhannu gyda'r bwrdd;
- Datganiad ategol byr yn egluro pam mae gennych ddiddordeb yn y rôl;
- Y ffurflen monitro cydraddoldeb. Nid yw hyn yn orfodol, ond gofynnir amdani ar gyfer dibenion monitro yn unol â'n hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Anfonwch eich cais at: victoria.lloyd@agecymru.org.uk



# Age Cymru

## Ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda phobl hŷn i ddatblygu a sicrhau newid cadarnhaol ar eu cyfer.

Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n rhoi profiadau cadarnhaol i bobl wrth iddyn nhw heneiddio. Cymdeithas ble mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys, ble maen nhw'n medru effeithio ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.

Ein cenhadaeth yw gwella bywydau pobl hŷn drwy ddarparu cyngor, cefnogaeth a gwasanaethau dibynadwy. Rydyn ni'n defnyddio ein gwybodaeth a'n profiadau i ddylanwadu ar bolisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Mae 800,000 o bobl hŷn yn byw yng Nghymru. Mae'r nifer o bobl hŷn sydd yn byw mewn tlodi'n cynyddu, ac er ein bod fel poblogaeth yn byw yn hirach, mae llawer o bobl hŷn yn byw gydag iechyd gwael.

Dydy nifer o bobl hŷn ddim yn gwybod ble i droi er mwyn dod o hyd i help, ac oherwydd nad yw pobl hŷn yn grŵp homogenaidd, bydd angen atebion gwahanol er mwyn bodloni eu hanghenion.

Mae yna agenda enfawr, ac mae Age Cymru'n medru gwneud gwahaniaeth i bobl hŷn o ran incwm, gofal a'r rhwystrau a'r galluogwyr sy'n wynebu pobl hŷn wrth iddyn nhw geisio byw eu bywydau wrth i ni greu Cymru sy'n cefnogi pobl hŷn.

Yr her sy'n wynebu'r Elusen yw adnabod a darparu'r gweithrediadau fydd yn cael yr effaith fwyaf, oherwydd ni fedrwn ni gyflawni popeth. Mae hyn yn golygu gweithio er mwyn dylanwadu ar newid, darparu gwybodaeth a chyngor sydd eu hangen ar bobl hŷn, a chefnogi ein partneriaid i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn.

## Ein Blaenoriaethau

- Sicrhau bod pobl hŷn yn gwybod ble i droi, a bod ganddyn nhw fynediad at wybodaeth a chyngor deg a dibynadwy.
- Darparu gwasanaethau eiriolaeth gwerthfawr, effeithiol a chynaliadwy.
- Dylanwadu ar bolisi a gweithredu er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl hŷn yng Nghymru.
- Cyd-weithio gyda phartneriaid rhwydwaith ledled Cymru.
- Cyd-weithio gyda phartneriaid corfforaethol er mwyn bod pawb yn elwa.
- Gweithredu rhwydwaith gynaliadwy sy'n ein galluogi i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ac effeithlon.

## Ein Canlyniadau

Rydyn ni'n ceisio sicrhau'r canlyniadau isod ar gyfer pobl hŷn:

- Mae pobl yn gwrando arnom ni pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n effeithio arnom ni a'n cymunedau.
- Mae ein cyfraniadau tuag at y gymdeithas yn cael eu gwerthfawrogi ac rydyn ni'n gwneud gwahaniaeth.
- Rydyn ni'n ymwybodol o'n hawliau a sut i'w harfer.
- Mae ein hiechyd a'n llesiant yn gwella.
- Rydyn ni'n gyffyrddus yn ariannol.
- Rydyn ni'n rhan o'n cymunedau.
- Rydyn ni'n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- Rydyn ni'n byw mewn cymunedau cynhwysol.

## Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn ein helpu ni i gyflawni ein nodau:

- Rydym yn ofalgar, mae pobl wrth wraidd popeth a wnawn.
- Rydym yn benderfynol, rydym yn cymryd cyfrifoldeb ac yn falch ein bod yn medru gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.
- Rydym yn effeithiol, rydym yn gwneud ein gorau.
- Rydym yn grymuso, rydym yn galluogi pobl, rydym yn helpu pobl i fod yn hyderus, rydym yn darparu cymorth ymarferol, a
- Rydym yn gynhwysol, rydym yn gweithio gyda'n gilydd ac yn cynnwys pobl eraill.

## Ein Gwaith

Er mwyn cyflawni ein nodau:

- Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor
- Rydym yn darparu rhaglenni llesiant
- Rydym yn darparu eiriolaeth annibynnol
- Rydym yn cefnogi gofalwyr
- Rydym yn ymgyrchu ac yn ymchwilio

# Ein Hymddiriedolwyr

Mae ein Hymddiriedolwyr yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer Age Cymru, a defnyddio'u sgiliau ymarferol, profiad, a gwybodaeth i gefnogi a herio'r staff.

Mae ein hymddiriedolwyr yn wirfoddolwyr. Mae ganddyn nhw gyfrifoldeb cyfreithiol i:

- Sicrhau bod ein nodau a'n hamcanion yn cael eu bodloni
- Gweithredu er lles pennaf yr elusen
- Rheoli'r hyn sydd gennym yn gyfrifol (megis ein pobl a'n harian)
- Gweithredu gyda gofal a sgiliau rhesymol

Dewch o hyd i ragor o wybodaeth wrth y Comisiwn Elusennau.

## Cyfarfodydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae pedwar cyfarfod ymddiriedolwr bob blwyddyn, a chyfarfod 2 ddiwrnod ym mis Tachwedd. Bydd papurau i'w darllen ymlaen llaw ar gyfer pob cyfarfod.

Mae llawer o'n hymddiriedolwyr yn eistedd ar un o'n pwyllgorau, sydd ag ymrwymiadau ychwanegol.

## Lleoliad

Mae ein gwaith ac aelodau o'n tîm wedi'u lleoli ledled Cymru; mae ein prif swyddfa yng Nghaerdydd.

Cynhelir cyfarfodydd ymddiriedolwyr wyneb yn wyneb ac ar-lein, ac mae treuliau rhesymol yn cael eu had-dalu.

## Sut fyddwch chi'n elwa:

- Y cyfle i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru
- Y cyfle i ddatblygu sgiliau newydd, gan gynnwys llywodraethu elusennau
- Y cyfle i lunio cyfeiriad elusen genedlaethol
- Y cyfle i ddefnyddio eich sgiliau eich hun, eich cysylltiadau, a'ch profiad i greu cyfleoedd newydd i Age Cymru
- Y cyfle i fod yn rhan o dîm, datblygu a gyrru ein cenhadaeth a chael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn ledled Cymru

## Dyletswyddau Ymddiriedolwyr:

Mae pob ymddiriedolwr yn gyfrifol am y dyletswyddau canlynol:

1. Sicrhau bod Age Cymru yn cydymffurfio â'i dogfen lywodraethol (Memorandwm & Erthyglau Cymdeithasu), cyfraith elusennau, cyfraith cwmnïau perthnasol ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol.
2. Sicrhau bod Age Cymru'n cyflawni ei hamcanion fel y'u diffinnir yn ei dogfen (Memorandwm & Erthyglau Cymdeithasu) ac yn defnyddio ei hadnoddau er mwyn hyrwyddo ei hamcanion.
3. Diogelu enw da ac egwyddorion Age Cymru.
4. Cynnal llywodraethu priodol gan sicrhau bod y Bwrdd: -

- yn cytuno ar gyfeiriad strategol a nodau'r elusen.
- yn sicrhau bod archwiliadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod strategaethau ar gyfer rheoli risg ar waith.
- diffinio ffiniau rheoli awdurdod, a dirprwyo awdurdod er mwyn rheoli sut mae cynlluniau a chyllidebau yn cael eu cyflawni.
- monitro perfformiad yn rheolaidd ac yn dal rheolwyr yn atebol am eu canlyniadau.
- sicrhau bod prosesau priodol ar gyfer penodi, diswyddo a monitro perfformiad y Prif Weithredwr.

5. Yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol yr elusen.
6. Diogelu a rheoli eiddo a sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi'n addas.
7. Cynrychioli unrhyw swyddogaeth neu benderfyniad sydd eisoes wedi cael ei gytuno gan y Bwrdd wrth siarad yn gyhoeddus.
8. Sicrhau bod prosesau priodol i adolygu perfformiad y Bwrdd yn flynyddol.
9. Yn ogystal â dyletswyddau cyfreithiol ymddiriedolwyr, dylai pob ymddiriedolwr ddefnyddio eu gwybodaeth neu brofiad i helpu'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau cadarn. Mae hyn yn cynnwys craffu ar bapurau'r Bwrdd, cymryd rhan mewn trafodaethau gan ganolbwyntio ar faterion allweddol a darparu cyngor a chanllawiau y gofynnwyd amdanynt gan y Bwrdd ynglŷn â mentrau neu faterion eraill sy'n berthnasol i waith Age Cymru lle mae gan yr ymddiriedolwr arbenigedd arbennig.

## Manyleb y person:

Rydym yn croesawu ac yn gwerthfawrogi profiadau bywyd y mae pob ymddiriedolwr unigol yn eu cynnig i'r rôl lywodraethu. Rydym yn chwilio am:

- Ymrwymiad i nodau a gwerthoedd Age Cymru.
- Dealltwriaeth a derbyniad am ddyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol ymddiriedolwr.
- Parodrwydd i neilltuo amser ac ymdrech i ddyletswyddau fel ymddiriedolwr.
- Profiad o feddwl yn strategol a chreadigol.
- Y gallu i lunio barn annibynnol a chadarn.
- Y gallu i wybod pryd i ofyn am gyngor proffesiynol.
- Y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm.
- Ymrwymiad i saith egwyddor Nolan am fywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae Age Cymru wedi ymrwymo at amrywiaeth. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bawb sy'n teimlo eu bod nhw'n medru cyfrannu, yn cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

# Cyfyngiadau

Dydych chi ddim yn gymwys i fod yn ymddiriedolwr ar gyfer elusen neu yn gyfarwyddwr cwmni os ydych:

- wedi derbyn euogfarn heb ei disbyddu ar gyfer trosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd
- yn fethdalwr nas rhyddhawyd
- wedi cael eich rhwystro rhag bod yn ymddiriedolwyr elusen gan y Llys neu'r Comisiynwyr am gamymddwyn neu gamreoli
- wedi derbyn gorchymyn anghymhwyso o dan y Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmni (1986)
- o dan 16 oed

# Ymrwymiad

Mae'r penodiadau am gyfnodau o 4 blynedd, gyda'r posibilrwydd o ailbenodi.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cael cyfnod ymsefydlu gydag Age Cymru a diweddariadau parhaus a hyfforddiant yn ôl y gofyn.

Bydd rhai ymddiriedolwyr yn aelodau o Bwyllgorau, naill ai'n barhaol neu yn ad hoc.

Bydd treuliau rhesymol yn cael eu talu.

# Atebolrwydd ymddiriedolwyr

Mae dau amgylchiad lle gall ymddiriedolwyr elusen fod mewn perygl o atebolrwydd personol:-

- os ydynt yn achosi colled i'r elusen drwy weithredu'n anghyfreithlon, yn annoeth neu du hwnt i ddogfen telerau llywodraethu'r elusen;
- os ydynt yn achosi dyledion i'r elusen sy'n swm yn fwy na'i asedau.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn nodi yn y daflen CC3, *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn sydd angen i chi ei wybod,* "os yw ymddiriedolwyr yn gweithredu'n ddoeth, yn gyfreithlon ac yn unol â'r ddogfen lywodraethol, yna gall unrhyw rwymedigaethau (h.y. dyledion neu rwymedigaethau ariannol) y maent yn eu hysgwyddo fel ymddiriedolwyr ddod o adnoddau'r elusen fel arfer. Fodd bynnag os yw ymddiriedolwyr yn ysgwyddo rhwymedigaethau neu ddyledion sydd â chyfanswm yn fwy na gwerth asedau'r elusen, efallai na fyddant yn gallu gwneud defnydd llawn o eiddo'r elusen, hyd yn oed os yw'r rhwymedigaethau wedi'u hysgwyddo mewn modd priodol".

Mae ymddiriedolwyr Age Cymru wedi'u hyswirio yn erbyn atebolrwydd personol sy'n deillio o weithredoedd a gynhaliwyd wrth weinyddu'r elusen neu weithredoedd a wneir yn groes i'r ymddiriedaeth ond sy'n gamgymeriad gonest.

**Dilynwch ni ar**

facebook.com/agecymru

twitter.com/agecymru

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant a'i cofrestrir yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig Llawr Gwaelod, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD. ©Age Cymru 2026